# Cefnogi achosion mewn llysoedd a thribiwnlysoedd

## Trosolwg

Mae'r safon hon ynglŷn â darparu cymorth i swyddogion, ymgyfreithwyr a phobl eraill mewn llysoedd a thribiwnlysoedd. Mae'n cynnwys darparu cyfarwyddyd gweithdrefnol ar ran llysoedd a thribiwnlysoedd a derbyn a chofnodi canlyniadau.

Mae'r safon hon yn eithrio cynnig unrhyw gyngor ar faterion neu achosion barnwrol neu gyfreithiol sy'n gofyn am hyfforddiant neu gymwysterau cyfreithiol.

Gall achosion fod naill ai'n droseddol neu'n sifil mewn llysoedd, tribiwnlysoedd neu erlyniadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. blaenoriaethu achosion fydd yn para am gyfnod byr i gael eu clywed yn gyntaf, yn unol â gofynion sefydliadol 2. cadarnhau bod trefniadau arbennig ar gael sydd eu hangen ar unigolion, yn unol â gofynion sefydliadol 3. cadarnhau bod yr offer sydd ei angen ar gyfer trefniadau arbennig yn gweithio'n gywir, yn unol â gofynion sefydliadol a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr 4. mynd i'r afael â phroblemau o ran trefniadau arbennig, yn unol â gofynion sefydliadol 5. cadarnhau bod unigolion sy'n defnyddio mesurau arbennig yn deall ac yn gallu gweithio'r offer a ddarperir, yn unol â gofynion sefydliadol 6. gweithio offer recordio, yn unol â gofynion sefydliadol 7. galw achosion, yn unol â gofynion sefydliadol 8. darparu cymorth a chyfarwyddyd i bartïon, yn unol â gofynion sefydliadol 9. delio ag unigolion mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo ymddygiad ac agweddau cadarnhaol, yn unol â gofyniad sefydliadol 10. darparu cyfarwyddyd ar achosion, yn unol â gofynion sefydliadol 11. ymateb i geisiadau am gyngor ar weithdrefnau, yn unol â gofynion sefydliadol 12. trefnu bod gwybodaeth ar gael i'r rheiny sydd ei hangen ac sydd â hawl i gael y wybodaeth, yn unol â gofynion sefydliadol 13. sefydlu a chofnodi canlyniadau, yn unol â gofynion sefydliadol 14. cadarnhau bod y partïon sy'n bresennol yn deall ac yn ymwybodol o ganlyniadau a'u heffaith, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol 15. cynnal cofnodion canlyniadau, yn unol â gofynion sefydliadol 16. hysbysu awdurdodau am ganlyniadau, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion a gweithdrefnau sefydliadol presennol o ran llysoedd a thribiwnlysoedd yn eich maes awdurdod a chyfrifoldeb, gan gynnwys:
1.1 darparu cymorth a chyfarwyddyd i'r rheiny mewn llysoedd a thribiwnlysoedd
1.2 darparu cyfarwyddyd a chyngor ar weithdrefnau mewn llysoedd a thribiwnlysoedd
1.3 derbyn a chofnodi canlyniadau
2. manteision clywed achosion fydd yn para am gyfnod byr yn gyntaf
3. gwahanol ddulliau cyfathrebu a sut i addasu eich arddull i weddu i anghenion unigolion
4. sut i gynnal cofnodion yn ymwneud â llysoedd a thribiwnlysoedd
5. yr amrywiaeth o drefniadau arbennig sydd ar gael, gan gynnwys cyfathrebu ac offer mynediad
6. manteision ac anfanteision trefniadau arbennig ar gyfer y rheiny sy'n eu defnyddio, a phroses y llys a'r tribiwnlys
7. sut i weithio offer sy'n gysylltiedig â threfniadau arbennig
8. yr awdurdodau i'w hysbysu am ganlyniadau achosion a sut i wneud hyn

Cefnogi achosion mewn llysoedd a thribiwnlysoedd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2023 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Sgiliau er Cyfiawnder |
| **RCU gwreiddiol** | SFJ DC3 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddog Llys, Swyddog erlyn, Swyddog Tribiwnlys |
| **Cyfres/Set** | Llysoedd, Tribiwnlysoedd ac Erlyniadau |
| **Geiriau Allweddol** | llys; tribiwnlys; achos; achosion; cymorth; swyddogion; ymgyfreithwyr; gweithdrefnau |